# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

Annwyl Gyd-aelodau,

Gobeithio eich bod i gyd yn iawn ac yn ymdopi ynghanol y prysurdeb sydd yn ein pentrefi ni erbyn hyn. Deall fod y meysydd gwersylla i agor yn llawn y penwythnos yma, ac mai Gogledd Cymru ydi'r ail atyniad mwyaf poblogaidd ar ôl Cernyw… a'n helpo! Ella bysa yn syniad i ni gyd fynd i neud ein neges cyn diwedd yr wythnos yma.

O ran Cyngor Tref Nefyn, hoffwn rannu'r wybodaeth ganylnol efo chi:

Cytunodd Pat i dderbyn swydd barhaol fel Clerc Cyngor Tref Nefyn, a oedd yn newyddion da iawn a diolch unwaith eto i ti, Pat am dy waith.

Estyniad Mynwent Nefyn-
Yn dillyn yr asesiad dwr a wnaethpwyd ar y safle, i sicrhau nad oedd y tir yn rhy wlyb i gael estyniad, mae'r E-Geo wedi datgan mai risg isel sydd yno, felly mae hwn yn gam ymlaen tuag at gael caniatad cynllunio ar gyfer yr estyniad i'r fynwent newydd.

Fel y gwyddoch drwy ebost blaenorol, rhoddwyd gwybod fod yr Archwiliad mewnol 2018-19 wedi cael ei gwblhau gan Pat, ac yn dilyn hynny mae hi wedi bod yn gweithio yn ddiwyd ar gwblhau Archwiliad 2019-20.

Ar hyn o bryd mae Pwyllgor Y Ddôl a Gruff yn ceisio datrys sut i allu agor Parc chwarae Nefyn, gyda cheisio sortio arwyddion diogelwch yn flaenoriaeth ynghyd â thrafod sut i fynd o gwmaps cadw'r pellter o 2m yn ddiogel. Mae arwydd ar ei ffordd o GG i'w osod yn y parc a bydd raid penderfynu ar arwyddion ychwanegol ein hunain hefyd.

Parthed yr ebost a anfonwyd at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd ddechrau'r mis, un o'r pwyntiau a godwyd oedd ei bod yn bwysig fod yr arwyddion argymhellion diogelwch yn ein siopau/gwasanaethau cyhoeddus yn ddwyieithog. Ddwy waith yn y pythefnos diwethaf rydwi wedi awgrymu ym Manc HSBC Pwllheli, eu bod yn cynnwys arwyddion Cymraeg, lle mae diogeiwch yn y cwestiwn, ond rhai uniaith Saesneg sydd i fyny ganddyn nhw. Fysa hi ddim yn ddrwg o beth i fod yn annog y gwasanaethau yma i gymryd sylw a gweithredu ar hyn.

Ga i ddiolch i chi gyd am eich cyfraniadau yn ystod y 5 wythnos a aeth heibio, a chymrwch ofal i gyd.

Cofion atoch,
Catrin.

**Taliadau wedi eu gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- John Gwynfor Jones – Ail agor bedd - £375.00
- Designer Signs – 3 Banner 'Diolch' - £132.00
- HM Revenue – PAYE Month 1 - £333.42

- HM Revenue – PAYE Month 2 - £180.94
- E-geo Solutions Ltd – Adroddiad Mynwent Nefyn - £894.00
- Cyflog y Clerc - £816.04
- D. M. Parry – Trydydd taliad mynwent Morfa Nefyn - £170.00
- Cliff Hughes – Trydydd taliad llwybrau - £825.00 & gwaith ychwanegol - £1482.12 = £2307.12
- N Power – Trydan Siop Siarad - £112.52
- Mark Hughes – tacluso o amgylch Llyfrgell Nefyn & tybiau blodau a cwch y Ddol Nefyn - £225.00

**Taliadau wedi eu derbyn:**

- Ifan Hughes – angladdau - £1610.00
- Dewi Thomas – angladd - £655.00

Pat Humphreys - Clerc
Cae'r Wydden, Lon Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS
• Symudol: 07901 704410 • ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298